**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rt Hon Elin Jones AS
Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddBusnes@senedd.cymru

12 Medi 2024

Annwyl Elin,

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf am amserlen Cyllideb Llywodraeth Cymru 2024-25.

Cyn toriad yr haf, gwnes i gadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Gyllideb ar 12 Rhagfyr, ond dywedais fod y dyddiad yn dibynnu ar amseriad Datganiad Hydref Llywodraeth y DU.

Cadarnhaodd Canghellor y Trysorlys yn Senedd y DU ar 5 Medi na fyddai Datganiad yr Hydref yn digwydd tan ddydd Mercher 22 Tachwedd. Dyma pryd y byddwn yn dysgu manylion setliad ein Cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Ni fydd yn bosibl mwyach inni gyhoeddi Cyllideb Ddrafft yn unol â'r amserlen a amlinellwyd yn flaenorol; rwy'n sylweddoli y bydd hyn yn destun siom i'r Senedd.

O ystyried y posibilrwydd o newidiadau sylweddol yn sgil Cyllideb y DU, rydym o'r farn na fyddai'n bosibl llunio cynlluniau gwario cadarn o fewn yr amserlen wreiddiol. Yn ogystal, ni fyddem yn dymuno gosod cynlluniau cyn Datganiad yr Hydref oherwydd effeithiau niweidiol posibl ar bartneriaid cyflawni a fyddai, efallai, yn gwneud eu cynlluniau eu hunain ar sail rhagdybiaethau anghywir.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheol Sefydlog 20.6 yn darparu y caiff y Gweinidog â chyfrifoldeb am Fusnes y Llywodraeth ofyn i'r Pwyllgor Busnes wneud newidiadau dilynol i amserlen y Gyllideb a ddarparwyd ym mis Mehefin. Gyda'ch cytundeb, rwy'n bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft ddydd Mawrth 19 Rhagfyr. Byddai hyn yn rhoi i Weinidogion Cymru y cyfnod lleiaf posibl sydd ei angen i baratoi cynlluniau gwario, dogfennau'r Gyllideb a thablau ategol, sef 3 wythnos a 4 diwrnod.

Mae'r amserlen hon yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd mwyaf ymarferol rhwng yr amser sydd ei angen i lunio'r Gyllideb Ddrafft a chraffu arni, a sicrhau ein bod yn rhoi sicrwydd o ran cyllido i'n partneriaid cyflawni a rhanddeiliaid cyn y Nadolig. Yn y bôn, bydd hyn yn golygu mabwysiadu amserlen debyg i amserlenni llawer o'r blynyddoedd ers i Lywodraeth y DU symud i ddigwyddiad cyllidol yn yr hydref, gan roi 6 wythnos a 4 diwrnod i Aelodau graffu ar y Gyllideb cyn i Bwyllgorau'r Senedd gyhoeddi eu hadroddiadau ddydd Llun 5 Chwefror.

Rwy'n bwriadu trefnu'r ddadl ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer dydd Mawrth 6 Chwefror. Ni fydd y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r Gyllideb Flynyddol, sef 27 Chwefror, na'r dyddiad arfaethedig ar gyfer cynnal dadl arni, sef 5 Mawrth, yn newid.

Byddaf yn gwneud Datganiad cyn gynted â phosibl ar y Gyllideb Ddrafft yn yr wythnos eistedd gyntaf yn y flwyddyn newydd. Byddwn i'n gwerthfawrogi'ch cydweithrediad mewn amgylchiadau sydd unwaith eto o dan ddylanwad ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth.

Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**